
# Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

# The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

## ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN GWEITHREDU 2020 - 2025

# Cyflwyniad

Ers i'r Cynllun Gweithredu gael ei fabwysiadu yn 2020 a'i weithredu o 2021, bu llawer iawn o weithgarwch a chynnydd.

O'r 103 o weithrediadau oedd wedi eu hadnabod yn wreiddiol, mae:

- 32 wedi cwblhau
- 54 ar waith / yn parhau
- 17 wedi eu addasu / ddim yn berthnasol / heb ddechrau / wedi eu tynnu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys diweddariad ar gyflawni pob elfen o'r Cynllun Gweithredu a fabwysiadwyd hyd at ddiwedd 2025.

Wrth ystyried y cyflawni, y dulliau mesur gwreiddiol a'r ffaith ein bod wedi adolygu'r Cynllun Rheoli a gymeradwywyd yn wreiddiol, mae'r ddogfen hon wedi bod yn sail i ddatblygu Cynllun Gweithredu o'r newydd a fydd yn ein llywio hyd at 2030 pan fydd Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu newydd yn cael eu datblygu a'u mabwysiadu.

Mae'r **Cynllun Rheoli** yn cynnwys pump thema, o fewn rhain mae amcanion, egwyddorion a chamau gweithredu wedi cael eu hadnabod:

- Amcan - y nod strategol y mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi'i adnabod fel blaenoriaeth
- Egwyddor - y fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer cyflawni'r amcan y cytunwyd arno
- Cam Gweithredu - y ffordd ymarferol y bydd yr amcan yn cael ei gyflawni

Pump thema y Cynllun Rheoli yw:

**Thema 1**: Llywodraethu a Rheoli
**Thema 2**: Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
**Thema 3**: Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
**Thema 4**: Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
**Thema 5**: Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru



# **Thema 1:** Llywodraethu a Rheoli

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1: Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio i arwain ar gamau i amddiffyn, cadw, cyflwyno a throsglwyddo Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er budd cenedlaethau'r dyfodol** | | | | |
| Egwyddor 1.1: Caiff gweledigaeth a nodau Cynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru eu cyflawni trwy weithio mewn partneriaeth | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn parhau i weithredu yn unol â thelerau Memorandwm o Ddealltwriaeth a lofnodwyd gan yr holl bartneriaid ac a adolygir yn rheolaidd | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Llofnodwyd yr MODd |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd unrhyw aelodau newydd sy'n ymuno â Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymrwymo i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Llofnodwyd yr MODd |
| Cam Gweithredu 3 | Datblygir gweithgareddau'r Bartneriaeth o amgylch blaenoriaethau Confensiwn Treftadaeth y Byd a sicrhau fod cadwraeth, gwarchod, cyflwyno a throsglwyddo yn werthoedd creiddiol | Tymor byr | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Gweithgareddau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar egwyddorion a'u defnyddio i geisio sicrhau cyllid i'w gweithredu |
| Cam Gweithredu 4 | Sefydlu model cydlynu priodol i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | Tymor byr | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi penodi Cydlynydd |
| Egwyddor 1.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithredu system agored a thryloyw o lywodraethu a rheoli ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cynnal cyfarfodydd is-grŵp a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn rheolaidd i oruchwylio gweithredu'r Cynllun Rheoli | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Is-grwpiau | Wedi'i gwblhau<br><br>Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar-lein, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r holl grwpiau o fewn y strwythur rheoli |
| Egwyddor 1.3: Bydd y Bartneriaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned a'r sector preifat ar bob lefel yn y strwythur llywodraethu | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r gymuned a'r sector preifat | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu 2 | Bydd Cymunedau a'r Sector Preifat yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Is-grwpiau gweithredol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd ac / neu Gadeiryddion Is-grwpiau | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd |
| Cam Gweithredu 3 | Bydd tirfeddianwyr yn ymrwymo i'r Datganiad o Egwyddorion cytunedig | Tymor byr | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Dull gwahanol wedi'i weithredu<br><br>Gweler dogfen - Adolygiad Thema 1 |
| **Amcan 2: Bydd Cynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei fabwysiadu a'i ymgorffori mewn strategaethau rhanbarthol** | | | | |
| Egwyddor 2.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn parchu'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Amcanion | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn ystyried y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Nodau | Tymor byr | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Mae'r STyB yn rhan o ddogfennau strategol |
| Egwyddor 2.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Rheoli Risg i gefnogi'r gwaith o reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu Cynllun Rheoli Risg a Chofrestr Risg | Parhaus | Tîm Cydlynu Prosiect | Wedi'i gwblhau<br><br>Cynllun Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg ar waith |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd y Cynllun Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg yn cael eu hadolygu'n gyson gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a chymerir camau gweithredu i liniaru lle bo angen | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau'n rhannol<br><br>Bydd y cyfrifoldeb am ddiweddaru'r Gofrestr Risg yn eistedd gyda'r is-grwpiau |



Ysbyty Chwarel, Parc Padarn

# **Thema 2:** Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 3: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol** | | | | |
| Egwyddor 3.1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau dros fod angen gwarchod Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a'i rheoli'n weithredol er mwyn cynnal ei Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd y canllawiau Gofalu am Dirwedd Llechi yn cael eu diweddaru a'u hailgyhoeddi i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru | Tymor byr | Cadw | Wedi'i gwblhau |
| Cam Gweithredu 2 | Paratoir Canllaw Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad ychwanegol i ddatblygwyr a phartïon sydd â diddordeb | Tymor byr | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth | Wedi'i gwblhau |
| Cam Gweithredu 3 | Darperir hyfforddiant i benderfynyddion, gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau o'r pwyllgor cynllunio lleol | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Gweithredol<br><br>Darperir ar sail achlysurol yn unol â'r gofyn. Canllawiau dylunio cymunedol wedi'u dosbarthu i swyddogion |
| Egwyddor 3.2: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru drwy roi dynodiad statudol ar waith ar gyfer elfennau hanesyddol penodol sy'n diwallu'r meini prawf cenedlaethol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cwblhau rhaglen ddynodi ar gyfer asedau hanesyddol o fewn ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru neu restru | Tymor byr | Cadw | Wedi'i gwblhau mwyafrif<br><br>Gweler dogfen - Adolygiad Thema 2 |
| Cam Gweithredu 2 | Cynnal yr adolygiad sydd ei angen er mwyn sefydlu Ardaloedd Cadwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac Abergynolwyn | Tymor canolig | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Cadw | Wedi'i gwblhau |
| **Amcan 4: Caiff y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ei reoli er mwyn cynnal a gwella ei Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ei gyfanrwydd a'i ddilysrwydd** | | | | |
| Egwyddor 4.1: Cefnogir perchnogion safle i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Lleol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Paratoir Cynlluniau Rheoli Lleol ar gyfer pob elfen allweddol | Tymor byr | Cyngor Gwynedd / Perchnogion safle | Ddim yn berthnasol mwyach |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd asedau hanesyddol yn destun rhaglen fonitro cyflwr strwythuredig | Parhaus | Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd | Gweithredol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 4.2: Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Nodir blaenoriaethau cadwraeth pellach ac fe'u blaenoriaethir | Tymor byr | Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd | Wedi'i gwblhau |
| Cam Gweithredu 2 | Caiff prosiectau cadwraeth eu datblygu a'u gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau | Tymor byr / canolig | Cyngor Gwynedd / Cadw / Perchnogion safle | Gweithredol<br><br>Sawl prosiect cadwraeth wedi'u gweithredu |
| Cam Gweithredu 3 | Byddir yn chwilio am gyfleoedd ariannu i ddatblygu prosiectau cadwraeth | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Gweithredol<br><br>Mae sawl ffynhonnell cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiectau cadwraeth |
| Egwyddor 4.3: Anogir addasiadau sy'n gydnaws ag asedau hanesyddol er mwyn eu hailddefnyddio | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd gwaith yn parhau i ganfod defnyddiau newydd i asedau hanesyddol allweddol gan gynnwys Melin Maenofferen | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle | Gweithredol<br><br>Ariannu wedi ei sicrhau ar gyfer gwaith cadwraeth cychwynnol ym Melin Maenofferen |
| Egwyddor 4.4: Anogir cadwraeth gynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd a chyfranogiad y cyhoedd mewn rhaglenni cadwraeth | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygir canllawiau dylunio i'r gymuned ac adnoddau rhannu gwybodaeth | Tymor byr | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Wedi cwblhau |
| Cam Gweithredu 2 | Anogir grwpiau gwirfoddol i "fabwysiadau heneb" ac i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro, clirio llystyfiant a chadwraeth asedau allweddol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grwpiau Cymunedol | Heb ei gwblhau<br><br>Rhan o brosiect LleCHI LleNI |
| **Amcan 5: Bydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd a'r golygfeydd i mewn iddo ac allan ohono yn cael eu rheoli i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yr eiddo er budd cenedlaethau'r dyfodol** | | | | |
| Egwyddor 5.1: Defnyddir mesurau cyfredol i warchod y dirwedd a'r fframwaith cynllunio defnydd tir fel teclyn rheoli i warchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd allweddol i mewn iddo ac allan ohono | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad manwl | Tymor byr | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth | Wedi'i gwblhau |

| Egwyddor 5.2: Bydd unrhyw ddatblygiad newydd o ddyluniad, graddfa a màs priodol fel ei fod yn cadw ac yn cyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo, yn parchu golygfeydd arwyddocaol ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyrraedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu 1 | Cynhyrchu canllawiau i ddatblygwyr ar arfer orau wrth ddylunio | Tymor byr | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth | Wedi'i gwblhau |
| Cam Gweithredu 2 | Parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori cyn cyflwyno cais lle mae posibilrwydd y bydd cynigion yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig (y lleoliad a'r olygfa i mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac allan ohono) | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Gweithredol |
| Cam Gweithredu 3 | Bydd Cam Gweithredu 2 (uchod) yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cynnwys y manylder a'r asesiad priodol sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Gweithredol |


Chwarel Dinorwig

# **Thema 3:** Datblygiad Cynaliadwy Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 6: Cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy sicrhau ein bod yn cynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu** | | | | |
| Egwyddor 6.1: Bydd cymunedau'n cael eu cefnogi i adnabod a gweithredu cyfleoedd adfywio lleol sy'n cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Ceisir cyfleoedd ariannu i ddatblygu gweithgareddau adfywio sy'n cadw neu'n cyfoethogi'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig | Tymor canolig | Perchnogion Safle / Grwpiau Cymunedol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Mae dros £38m o fuddsoddiad wedi'i sicrhau drwy brosiectau dan arweiniad Cyngor Gwynedd ers derbyn yr arysgrifiad, gyda mwy wedi'i sicrhau trwy fuddsoddiad preifat a grantiau partneriaid allanol |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd Cynlluniau Cynefin (strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le), yn cael eu datblygu ar gyfer cymunedau allweddol, gydag adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn greiddiol iddynt | Tymor byr | LleCHI / Grwpiau Cymunedol | Wedi'i gwblhau<br><br>Crëwyd chwe chynllun |
| Egwyddor 6.2: Bydd arysgrifiad llwyddiannus fel Safle Treftadaeth y Byd yn ennyn ymdeimlad o falchder ac uchelgais mewn cymunedau lleol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd cynlluniau llysgenhadon yn cael eu datblygu ar gyfer ystod o oedrannau / sectorau | Tymor byr | LleCHI / Partneriaid / Grwpiau Cymunedol / Ysgolion | Wedi'i gwblhau'n rhannol<br><br>Treialwyd Llysgenhadon Llechi Ifanc fel rhan o brosiect LleCHI, mae cynlluniau Llysgennad Eryri a Gwynedd ar waith, ac mae'r cynllun Llysgenhadon Llechi Ifanc yn cael ei sefydlu drwy brosiect LleCHI LleNI |
| Egwyddor 6.3: Bydd treftadaeth llechi yn flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Os llwyddir i gael yr arysgrifiad, bydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn parhau i gael ei hadnabod fel blaenoriaeth o fewn blaenoriaethau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd | Tymor canolig | Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd | Wedi'i gwblhau<br><br>Mae'r Safle Treftadaeth y Byd wedi'i nodi yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 fel blaenoriaeth strategol |
| **Amcan 7: Diwydiant mwynau cynaliadwy** | | | | |
| Egwyddor 7.1: Nid yw echdynnu mwynau sylfaenol yn digwydd tu mewn i ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig na thu mewn i ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Nid oes angen cam gweithredu | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 7.2: Rheolir cloddio am fwynau crai a gweithio eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy'r broses gynllunio mwynau bresennol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd pob caniatâd yn cael ei adolygu'n achlysurol, a bydd gofyn cadw at amodau'r caniatâd | Parhaus | Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Egwyddor 7.3: Bydd crefft llechi a sgiliau cadwraeth yn cael eu hyrwyddo'n frwd, ynghyd â chymorth sgiliau i'r diwydiant chwarelu llechi modern | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd hyfforddiant / darparu / hyrwyddo sgiliau traddodiadol yn cael ei wneud mewn partneriaeth â busnesau, sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg / hyfforddiant | Tymor canolig | Cydlynydd / Partneriaid Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau'n rhannol<br><br>Cynhaliwyd sesiynau blasu sgiliau traddodiadol. Mae rhaglen sgiliau traddodiadol yn cael ei ddatblygu fel rhan o brosiect LleCHI LleNI |
| Egwyddor 7.4: Bydd cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau ac agregau cadwraeth yn cael ei gynnal, a dylid gwneud y defnydd mwyaf o agregau eilaidd lle bynnag y bo modd | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Sicrhau bod y diwydiant chwarelu llechi presennol yn cael ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau | Parhaus | Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| **Amcan 8: Sicrhau bod uchelgeisiau ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu mewn harmoni â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig** | | | | |
| Egwyddor 8.1: Caiff cynigion sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol eu cefnogi, yn amodol ar ofynion Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031: Polisi Datblygu 3 a lle bo'n berthnasol, Polisi Strategol B (Chwefror 2019), a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Mae sesiynau cyngor anffurfiol ar gael i ddatblygwyr, a gwasanaeth cyngor cyn-cynllunio ar gael gan yr Awdurdodau Cynllunio |
| Cam Gweithredu 2 | Dilyn canllawiau ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynigion datblygu sylweddol | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 3 | Ymgynghori ag ICOMOS-UK ar ddatblygiadau mawr sydd â'r potensial i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Ddim angen hyd yma |
| Egwyddor 8.2: Bydd cynigion ynni adnewyddadwy nad ydynt yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ac sy'n cydymffurfio â pholisi cynllunio presennol, yn cael eu cefnogi | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Mae sesiynau cyngor anffurfiol ar gael i ddatblygwyr, a gwasanaeth cyngor cyn-cynllunio ar gael gan yr Awdurdodau Cynllunio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu 2 | Dilyn canllawiau ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynigion datblygu sylweddol | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 3 | Ymgynghori ag ICOMOS-UK ar ddatblygiadau mawr sydd â'r potensial i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Ddim angen hyd yma |
| **Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i gefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth** | | | | |
| Egwyddor 9.1: Os llwyddir i gael yr arysgrifiad, bydd cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu'n gwella'r Safle Treftadaeth y Byd ac yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu hannog | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd cyfleoedd adfywio yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu o fewn y Cynlluniau Cynefin (strategaethau adfywio sy'n cael eu harwain gan dreftadaeth) | Parhaus | LleCHI / Partneriaid / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd cyfleoedd datblygu economaidd ehangach sy'n cyd-fynd â pholisïau cynllunio gofodol lleol ac sy'n cyfrannu at y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig neu'r gosodiad ac yn cefnogi'r Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu | Parhaus | Partneriaethau / Perchnogion Safle / Buddsoddwyr | Dim cynnydd |
| Egwyddor 9.2: Defnyddir cadwraeth asedau hanesyddol fel ysgogiad i annog datblygiad a pharhad sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Defnyddio hyfforddiant ymarferol i gyflwyno elfennau o'r ddarpariaeth Sgiliau Traddodiadol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Ar waith<br><br>Sesiynau wedi eu cynnal fel rhan o gyfnod datblygu LleCHI LleNI ac fe fydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal fel rhan o'r cyfnod cyflawni |
| Cam Gweithredu 2 | Cefnogi ymdrechion cadwraeth preifat a gwirfoddol presennol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Prosiectau LleCHI LleNI a Llewyrch o'r Llechi yn cefnogi ymdrechion cadwraeth |
| Egwyddor 9.3: Bydd cydweithio gyda mentrau perthnasol eraill yn cyfoethogi cyfleoedd economaidd (e.e. Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd, Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Dull cydlynol i ddatblygu cynlluniau / prosiectau adfywio | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau<br><br>Cynlluniau Cynefin wedi eu creu sydd bellach yn bwydo i mewn i'r Cynlluniau Ardal |
| Cam Gweithredu 2 | Symud cyfleoedd adfywio unigol ymlaen drwy gyflwyno prosiectau partneriaeth | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau ac i barhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 10: Cymunedau cynaliadwy** | | | | |
| Egwyddor 10.1: Bydd yr holl dai newydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig neu gerllaw iddo yn ystyried yr angen i warchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Defnyddio polisi cynllunio presennol i sicrhau bod pob datblygiad yn briodol ac yn ystyried y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Ar waith |
| Egwyddor 10.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog cadwraeth ddeallus o elfennau nodedig yr amgylchedd adeiledig sy'n cyfrannu at y cymeriad hanesyddol, gan ystyried argymhellion yr Astudiaethau Cymeriad Trefol fel canllaw ar gyfer arfer dda | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Annog cadwraeth asedau adeiledig yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a gerllaw iddo | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 2 | Annog grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i roi ystyriaeth i'r cymeriad hanesyddol wrth ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol adeiledig | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Arweinlyfr cymunedol wedi'i greu, a sesiynau gwybodaeth yn cael eu cynllunio trwy LleCHI LleNI |
| Egwyddor 10.3: Bydd y Grŵp Llywio Partneriaeth yn ceisio atebion ac yn annog yn weithredol ailddefnyddio addasol priodol o adeiladau hanesyddol segur, gan gynnwys mannau addoli, mewn ffordd na fydd yn peryglu uniondeb hanesyddol ac archaeolegol yr asedau hyn | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Gweithio gyda'r gymuned leol a pherchnogion preifat i nodi a chyflawni prosiectau ailddefnyddio cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol segur | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Parhaus |
| Cam Gweithredu 2 | Gweithio gyda phartneriaid i nodi a chyflawni ail ddefnyddiau cynaliadwy ar gyfer mannau addoli segur o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Dim cynnydd |
| **Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy** | | | | |
| Egwyddor 11.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at fynediad a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Annog tirfeddianwyr i ymgorffori dehongli a mynediad at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn datblygiadau lle bo hynny'n briodol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Egwyddor 11.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn galw am gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy, a fydd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cynnal deialog gyda chynrychiolwyr gwleidyddol a chanddynt lais yn y trefniadau ar reoli tir yn gynaliadwy yn y dyfodol | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 12: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog ac yn hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy fel ffordd o ymweld â chyrchfannau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig** | | | | |
| Egwyddor 12.1: Anogir defnyddio dulliau cludiant cynaliadwy er mwyn ymweld â Chydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu amserlenni i alluogi i bobl deithio o gwmpas y rhanbarth yn gynaliadwy | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 2 | Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy sy'n bodoli y tu mewn ac o gwmpas y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus |
| Cam Gweithredu 3 | Hyrwyddo cludiant cynaliadwy gyda phartneriaid rheoli cyrchfannau | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle | Parhaus |
| Egwyddor 12.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn rhoi anogaeth weithredol i integreiddio'r diddordeb treftadaeth gyda chludiant cynaliadwy yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn y rhanbarth | | | | |
| Cam Gweithredu 3 | Cynnal deialog â darparwyr trafnidiaeth, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr trafnidiaeth | Parhaus<br><br>Deialog wedi cychwyn hefo Trafnidiaeth Cymru |




Llechi Cerfiedig

# **Thema 4:** Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 13: Sicrhau y gellir mwynhau, profi a deall Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig** | | | | |
| Egwyddor 13.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn diogelu gwerthoedd diriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ei gyd-destun naturiol a diwylliannol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd y Strategaeth Ddehongli ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn dweud wrth ymwelwyr am arwyddocâd lleoliad o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn cyfleu asedau treftadaeth diriaethol ac anniriaethol | Tymor canolig | LleCHI | Wedi'i gwblhau<br><br>Cynllun dehongli wedi'i greu yn 2021, ac adolygiad yn 2024. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Llechi Cymru |
| Cam Gweithredu 2 | Ymchwilio i gyfleoedd ariannu er diogelu / hyrwyddo asedau a thraddodiadau | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Egwyddor 13.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn datblygu gwaith i ymgysylltu â'r cyhoedd / rhanddeiliaid o ran gwarchod, cadwraeth a dehongli | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cynnal digwyddiadau er mwyn cyfleu gwybodaeth ac annog rhanddeiliaid i rannu profiadau gyda'i gilydd | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 2 | Llysgenhadon fydd llais y dirwedd llechi a byddant yn cyflwyno negeseuon allweddol | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Llysgennad Eryri<br>Llysgennad Gwynedd<br>Llysgenhadon Llechi Ifanc |
| Egwyddor 13.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig rhag seilwaith ddehongli ymwthiol, pwysau gan ymwelwyr, dehongliad anghywir neu amhriodol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Gweithio gyda chymunedau i greu Cynlluniau Cynefin a fydd yn hysbysu pobl leol o arwyddocâd, a hefyd yn adnabod ymyraethau i ddiogelu gwerthoedd hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol | Tymor byr | LleCHI | Parhaus |
| Cam Gweithredu 2 | Annog perchnogaeth leol drwy weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 3 | Creu canllawiau dylunio lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwarchod deunydd hanesyddol | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi cwblhau<br><br>Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth<br>Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 13.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn dilyn yr arfer orau esblygol mewn dehongli treftadaeth | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd Cynlluniau Cynefin yn adnabod prosiectau dehongli, yn seiliedig ar ddyheadau'r gymuned | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau<br><br>Crëwyd 6 chynllun |
| Cam Gweithredu 2 | Cynnal a datblygu cysylltiadau â sefydliadau treftadaeth er mwyn rhannu'r arferion gorau | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau yn rhannol ac yn parhau |
| Egwyddor 13.5: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn asesu ac yn monitro effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg a chymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn gweithio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Sefydlu gwaelodlin a dulliau monitro cadarn ar gyfer asesu effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar y Gymraeg | Tymor byr | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau'n rhannol. Gwaelodlin wedi'i sefydlu, ac mae gwaith yn parhau ac mae trafodaethau wedi'u cynnal i nodi ffyrdd ystyrlon o gefnogi'r Gymraeg drwy'r STyB ac i nodi dulliau priodol o fesur ein gweithgareddau |
| Cam Gweithredu 2 | Monitro effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yn barhaus ac ymgymryd ag unrhyw fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Dim cynnydd. Gwaelodlin wedi'i sefydlu, ond monitro parhaus yn anodd iawn. Gwaith yn parhau gyda Tîm Iaith Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor i adnabod fframwaith monitro |
| **Amcan 14: Creu profiad i ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf** | | | | |
| Egwyddor 14.1: Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog cynhwysiad, drwy hwyluso cyfranogiad rhanddeiliaid yn natblygiad a gweithrediad y strategaeth ddehongli | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Bydd llysgenhadon ar y rheng flaen wrth gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr, gan ddarparu profiadau go iawn | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Llysgennad Eryri<br>Llysgennad Gwynedd<br>Llysgenhadon Llechi Ifanc |
| Cam Gweithredu 2 | Bydd y Strategaeth Ddehongli ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cyfleu hanesion lleol ynghyd â'r stori fyd-eang er mwyn sicrhau perchnogaeth gymunedol a dehongliad go iawn | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau<br><br>Cynllun dehongli wedi'i greu yn 2021, adolygiad yn 2024. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Llechi Cymru |
| Cam Gweithredu 3 | Sefydlu Grŵp Dehongli i gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth, cymunedau a busnesau i lywio'r blaenoriaethau dehongli | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau<br><br>Is-grŵp dehongli wedi'i sefydlu ac yn rhan o'r strwythur rheoli |
| Egwyddor 14.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu canllawiau technegol a phroffesiynol ar gyfer dehongli a chyflwyno treftadaeth | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu pecyn Marchnata a sesiynau hyfforddi cysylltiedig i hysbysu a grymuso busnesau a chymunedau | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Pecyn marchnata ar wefan Llechi Cymru. Cynhaliwyd sesiynau busnes ac mae pecyn busnes yn cael ei ddatblygu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu 2 | Datblygu pecynnau canolog i bartneriaid a rhanddeiliaid i gynnwys testun safonol a llyfrgell ffotograffig | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Egwyddor 14.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu darpariaeth o arwyddion a gwybodaeth glir a chyson ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu Cynllun Rheoli Ymwelwyr Cynaliadwy | Tymor byr | LleCHI | Wedi'i gwblhau<br><br>Gwynedd ac Eryri 2035 |
| Cam Gweithredu 2 | Datblygu Strategaeth Arwyddion ar gyfer y Porth | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi cwblhau Strategaeth Arwyddion a gweithredu cynllun arwyddion ym Methesda, Blaenau Ffestiniog, Llanberis, Penygroes, Tywyn a Phorthmadog |
| Egwyddor 14.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau ymdeimlad o le unigryw a phrofiadau go iawn o ansawdd uchel i ymwelwyr | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Cefnogi atyniadau, seilwaith a phrofiadau o ansawdd uchel sy'n bodoli, ac annog darpariaeth newydd | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 2 | Anogir llysgenhadon i adrodd eu straeon eu hunain er mwyn rhoi profiad unigryw a dilys | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 3 | Cefnogi ac annog prosiectau twristiaeth gymunedol | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 4 | Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymgorffori'r enwebiad yng Nghynllun Twristiaeth a Rheoli Cyrchfan sydd ar y gorwel ar gyfer Gwynedd | Parhaus | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd | Wedi'i gwblhau |
| Egwyddor 14.5: Bydd chwe Chydran y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu marchnata a'u cyfathrebu fel un Eiddo | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Sicrhau cytgord gydag ymdrechion marchnata brand y gyrchfan (Eryri Mynyddoedd a Môr) | Parhaus | Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Cam Gweithredu 2 | Gweithio gyda Croeso Cymru ar Flynyddoedd Thematig, Ffordd Cymru a phrosiectau twristiaeth strategol cenedlaethol eraill | Tymor hir | Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| **Amcan 15: Ymdrechu i greu amgylchedd diogel i fwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | | | | |
| Egwyddor 15.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu polisïau diogelwch clir a chadarn ar gyfer y dirwedd lechi | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu ymgyrch diogelwch ar gyfer y dirwedd lechi | Tymor byr | Fforwm Tirfeddianwyr | Wedi'i gwblhau ac i barhau<br><br>Prosiect ymweliad diogel a chyfrifol ar waith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 15.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod diogelwch yn thema greiddiol yn yr ymdrechion dehongli a throsglwyddo | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Sicrhau bod neges ddiogelwch yn cael ei chynnwys ymhob prosiect dehongli a ddatblygir / cefnogir gan y Bartneriaeth | Parhaus | LleCHI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau ac i barhau |
| Egwyddor 15.3: Anogir mynediad at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (lle bo hynny'n briodol), er mwyn hwyluso dealltwriaeth o'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu a hyrwyddo llwybrau strategol sy'n edrych ar y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r rhanbarth ehangach | Parhaus | Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Wedi'i gwblhau yn rhannol ac yn parhau<br><br>Hyrwyddo a chefnogi Llwybr Llechi Eryri. Teithlenni wedi'u datblygu, ac mae mwy o deithlenni wedi'u cynllunio drwy brosiect LleCHI LleNI |
| Cam Gweithredu 2 | Lle nad yw'n bosib cael mynediad cyhoeddus neu lle mae hynny wedi'i wahardd, ymgymryd â dehongli rhithwir neu loeren yn y safleoedd hynny | Parhaus | Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Heb ei gwblhau<br><br>Bydd dehongliad digidol ac ymweliadau rhithiol yn cael eu gweithredu drwy brosiect LleCHI LleNI |



Melin Lechi Ynysypandy

# **Thema 5:** Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 16: Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ganolbwynt dysgu ac ymchwil y gellir eu rhannu ag eraill, ac mae'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i werthoedd a'i briodweddau** | | | | |
| Egwyddor 16.1: Sefydlir cysylltiadau â darparwyr addysg i feithrin cyfleoedd ar gyfer rhaglenni dysgu cynhwysol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Datblygu cysylltiadau ag Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |
| Cam Gweithredu 2 | Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs BA Treftadaeth a Newid Hinsawdd ym Mhrifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Dim cynnydd |
| Cam Gweithredu 3 | Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs MA Treftadaeth y Byd a Rheoli Treftadaeth ym Mhrifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |
| Cam Gweithredu 4 | Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu grantiau ymchwil PhD gyda Phrifysgolion | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Dim cynnydd |
| Cam Gweithredu 5 | Cynnal cysylltiadau â'r cyrsiau archaeoleg ddiwydiannol sy'n cael eu cynnal gan ganolfan astudio Parc Cenedlaethol Eryri | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Parc Cenedlaethol Eryri | Wedi'i atal |
| Cam Gweithredu 6 | Sicrhau integreiddiad yr Enwebiad â datblygiadau'r cwricwlwm ar draws Cymru | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |
| Egwyddor 16.2: Sefydlir cysylltiadau â chyrff rhyngwladol i hyrwyddo ymchwil academaidd, rhaglenni addysgiadol a theithiau cyfnewid proffesiynol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Meithrin cysylltiadau cryfach gyda TICCIH | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |
| Cam Gweithredu 2 | Adeiladu ar y cysylltiadau â Chymdeithas Ardenne Wallone a phartïon eraill â diddordeb | Tymor byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Dim cynnydd |
| Cam Gweithredu 3 | Ychwanegu at y cysylltiadau rhwng Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffyrdd India (Safle Treftadaeth y Byd Rheilffyrdd Ucheldiroedd India) | Tymor byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Rheilffordd Ffestiniog | Ddim yn berthnasol mwyach |
| Cam Gweithredu 4 | Gweithio gyda Phrosiect Tirwedd Chwareli Ewrop | Tymor byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Dim cynnydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 16.3: Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a dysgu am agweddau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Rhannu arfer gorau mewn twristiaeth | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |
| Cam Gweithredu 2 | Annog ymwelwyr i ddychwelyd i fynychu cyrsiau sy'n ymwneud â Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru neu i gymryd rhan mewn rhaglenni gwirfoddol | Tymor byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr / Twristiaeth - darparwyr | Ar waith |
| Egwyddor 16.4: Bydd ymchwilwyr yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil | | | | |
| Cam Gweithredu 1 | Hyrwyddo cynadleddau a chyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Addysg - darparwyr | Ar waith |



Gweithdy Ysgol